# Buddion gweithredu ar newid hinsawdd dan arweiniad y gymuned

## Adnodd i gefnogi'r gwaith o ddylunio prosiectau, monitro, dysgu ac adrodd straeon

**Rhagfyr 2025**

COMMUNITY FUND ARUP Innovation Unit UNIVERSITY OF LEEDS CREATURE & CO.

# Cynnwys


3 Trosolwg

4 Mapio camau gweithredu yn ôl buddion

6 Mesur buddion

11 Beth alla i ei wneud nawr?



**Cydnabyddiaethau**

**Prifysgol Leeds** – Luke Nolan, Dr. Alice Garvey, Professor Alice Owen, Jon Kedwards

**Arup** – Kate Jones, Gwen Thomas, Ella Young, Laura Frost

**Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** – Colleen Souness, Ariana Ntziadima

# Trosolwg

**Ydych chi wedi meddwl am y buddion sylweddol sy'n gallu deillio o brosiectau gweithredu ar newid hinsawdd dan arweiniad y gymuned?**

**Ydych chi wedi ystyried sut gallai'r buddion hyn fod yn berthnasol i'ch camau gweithredu eich hun ar newid hinsawdd?**

**Ydych chi'n gwybod pa fuddion sydd bwysicaf i'ch rhanddeiliaid?**

Yng nghamau cyntaf diffinio'r prosiect, gall fod yn hawdd canolbwyntio ar y buddion ar unwaith, uniongyrchol iawn y bwriedir i weithgareddau'r prosiect eu cyflawni. O ran gweithredu newid hinsawdd, gallai hyn gynnwys lleihau'r defnydd o ynni, creu mannau gwyrdd, cyfraddau uwch o ailddefnyddio deunyddiau, ymysg pethau eraill. Wrth i brosiectau gael eu cyflwyno, y buddion uniongyrchol a phendant hynny'n aml yw'r rhai sy'n cael eu cofnodi drwy fonitro, gwerthuso a dysgu, ac sy'n cael eu cyfleu i randdeiliaid.

Mae'n hawdd anwybyddu'r buddion ehangach, llai uniongyrchol y gall gweithgareddau eu cynnig - ond mewn llawer o achosion, mae'r buddion hynny yr un mor bwysig ac effeithiol â'r rhai uniongyrchol, ac mewn rhai achosion efallai y bydd ganddynt fwy o arwyddocâd i'r cymunedau, y partneriaid neu'r cyllidwyr rydych chi'n ceisio ymgysylltu â nhw yn y dyfodol.

Gall cael trosolwg llawn o'r buddion posibl helpu yng nghamau cynnar y broses o ddiffinio prosiectau, gan sicrhau bod prosiectau'n cael eu dylunio i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar draws amrywiaeth o ddangosyddion, a'u bod yn canolbwyntio ar fuddiannau rhanddeiliaid allweddol y prosiect. Gellir ymgorffori buddion yn gynnar i ddamcaniaeth newid prosiect, ac yna i fonitro, gwerthuso, dysgu a chyfathrebiadau'r prosiect.

Mae'r Adroddiad Cryno hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Leeds yn 2025, ar ran Partneriaeth Dysgu a Chymorth y Gronfa Gweithredu ar Newid Hinsawdd (CAF), gan gynnwys y Fframwaith Buddion. Drwy gyflwyno'r Fframwaith Buddion hwn, nod Partneriaeth Dysgu a Chymorth CAF yw tynnu sylw at yr ystod o fuddion sy'n berthnasol i brosiectau gweithredu newid hinsawdd sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

Mae hyn er mwyn annog persbectif ehangach ar 'gyfanswm y buddion', a hyrwyddo dulliau mwy systematig o fesur buddion cyffredin ar draws prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Er na all unrhyw brosiect fesur popeth, mae'n debygol y bydd rhai buddion yn amlwg iawn yng nghyd-destun unrhyw brosiect.

Fe'i hanelir yn bennaf at ddeiliaid grantiau CAF, ond gall rhanddeiliaid cymunedol a rhanddeiliaid gweithredu ar newid hinsawdd eraill hefyd gael gwerth o'r canfyddiadau.





COMMUNITY FUND ARUP Innovation Unit UNIVERSITY OF LEEDS CREATURE & CO.

# Mapio camau gweithredu yn ôl buddion

**Er bod gan lawer o weithgareddau gweithredu ar newid hinsawdd amcan canolog i leihau allyriadau nwyon ty gwydr neu feithrin y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, mae'r buddion gwirioneddol yn aml yn ymestyn ymhell y tu hwnt i hynny. Mae hyn yn bwysig, gan y gall y buddion ehangach hyn fynd i'r afael â blaenoriaethau dyddiol pobl leol, cymunedau, partneriaid, cyllidwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac ysgogi cefnogaeth a chyfranogiad.**

Mae'r graffigyn isod yn dangos y mathau o fuddion sy'n deillio o weithgareddau hinsawdd sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae'r gweithgareddau wedi'u grwpio dan chwe math o Weithgaredd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o weithgareddau prosiect a gyflawnir gan ddeiliaid grantiau CAF:

- **Natur** (e.e. plannu coed, gwyrddu trefol, adfer cynefinoedd)
- **Dŵr, Gwastraff a Defnyddio** (e.e. ailgylchu, compostio, defnyddio dŵr yn effeithlon)
- **Ynni** (e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy, mentrau effeithlonrwydd ynni)
- **Trafnidiaeth** (e.e. teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu ceir)
- **Ymgysylltu â'r Cyhoedd** (e.e. eiriolaeth newid hinsawdd, hyfforddiant, addysg).
- **Bwyd** (e.e. perllannau, gerddi cymunedol, rhandiroedd).

Gan ddibynnu ar lenyddiaeth gyhoeddedig, mae gweithgareddau'n gysylltiedig â phedwar categori Budd:

- **Cymuned** – buddion sy'n gysylltiedig â lles cymdeithasol pobl.
- **Economaidd** – buddion sy'n gysylltiedig â dosbarthu adnoddau a chyfoeth mewn cymuned.
- **Amgylcheddol** – buddion sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd a gwarchod adnoddau naturiol.
- **Iechyd** – buddion sy'n gysylltiedig â lles corfforol a meddyliol aelodau o'r gymuned.

Y buddion sylfaenol yw'r buddion ar unwaith, uniongyrchol, ac yn aml y buddion mwyaf amlwg sy'n deillio o weithgaredd, a'r buddion eilaidd yw'r rhai a allai ddeillio o'r manteision sylfaenol. Gellir priodoli'r ddau fath o fudd i'r gweithredu cychwynnol ar newid hinsawdd.






*Mae lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cael ei eithrio o'r fframwaith hwn. Tybir bod lleihau allyriadau yn un o amcanion llawer o brosiectau gweithredu ar newid hinsawdd sy'n cael eu harwain gan y gymuned, ac mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar fapio buddion ehangach.

# Mesur buddion

**Un peth yw cydnabod buddion gweithgaredd, ond mae eu mesur mewn ffordd sy'n darparu tystiolaeth gadarn o effaith y prosiect yn rhywbeth arall! Mae angen i fesur fod yn ymarferol ac yn gymesur i adnoddau tîm prosiect, ac mae gwahanol ddulliau'n addas ar gyfer deall gwahanol fathau o fuddion.**

P'un a ydych chi'n dewis dull meintiol o fesur neu ddull mwy ansoddol sy'n seiliedig ar arsylwadau, barn a phrofiadau, yr allwedd yw sicrhau cysondeb dros amser i greu darlun clir o'r newid rydych chi'n ei wneud. Bydd bod yn dryloyw ynghylch y dull rydych chi wedi'i ddefnyddio a chydnabod unrhyw gyfyngiadau yn eich helpu chi a'ch rhanddeiliaid i ddefnyddio data'n briodol.

Felly, pa ddulliau y gallech eu defnyddio i fesur buddion ehangach eich gwaith? Gellir asesu llawer o fuddion drwy ddefnyddio arolygon neu gyfweliadau i gasglu barn/ dewisiadau, neu ganfyddiadau o newid dros amser. Awgrymir dulliau meintiol eraill isod.





COMMUNITY FUND ARUP Innovation Unit UNIVERSITY OF LEEDS CREATURE & CO.

# Mesur buddion

## Buddion cymunedol

| Budd | Am beth rydw i'n chwilio? | Sut gallwn i ei fesur? |
|---|---|---|
| Harddwch lleol | Gwell estheteg weledol i'r gymuned, e.e. drwy wyrddu | Newid yn arwynebedd mannau gwyrdd<br>Newid yn ansawdd mannau gwyrdd, e.e. planhigion ac amwynderau ffyniannus |
| Brandio lle a sylw | Gwella enw da neu hunaniaeth cymdogaeth | Newid yn nifer yr ymwelwyr dros amser |
| Cefnogi'r Gymuned | Mwy o ymgysylltu a chefnogaeth ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd. | Newid o ran gwirfoddoli/ymgysylltu â'r gymuned (o ran gweithredu ar newid hinsawdd) |
| Balchder a hunaniaeth leol | Morâl cymunedol gwell a chysylltiad diwylliannol cryfach â lleoliad | Newid o ran gwirfoddoli/ymgysylltu â'r gymuned (mewn mentrau lleol ehangach) |
| Hyfforddiant, addysg ac ymwybyddiaeth | Mwy o wybodaeth am newid yn yr hinsawdd a gweithredu | Newid yn argaeledd/presenoldeb mewn dosbarthiadau lleol a digwyddiadau dysgu Newid yn lefel y ddealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd, a adroddir gan gyfranogwyr |
| Rhyngweithio cymdeithasol | Creu cysylltiadau newydd rhwng pobl leol | Newid yn nifer/presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol Newid mewn cysylltiadau personol, a adroddir gan gyfranogwyr |
| Cyfalaf cymdeithasol | Gwell rhwydweithiau ymddiriedaeth, cydweithrediad a chydgefnogaeth | Newid ym marn y gymuned am rwydweithiau cefnogi lleol |
| Newid mewn ymddygiad | Mwy o awydd i gymryd rhan mewn ymddygiad cynaliadwy | Newid yn y gyfradd gwirfoddoli<br>Newid mewn presenoldeb mewn digwyddiadau, e.e. caffis trwsio , ac ati.<br>Pobl/grwpiau cymunedol yn rhoi gwybod am newidiadau mewn ymddygiad |

# Mesur buddion

## Manteision Economaidd

| Budd | Am beth rydw i'n chwilio? | Sut gallwn i ei fesur? |
|---|---|---|
| Costau byw is | Llai o gostau i bobl leol, e.e. biliau cyfleustodau is | Newid yng nghostau'r cartref, e.e. bwyd, ynni, dŵr, yn seiliedig ar ddull samplu |
| Swyddi a sgiliau | Creu swyddi a chynyddu sgiliau sy'n berthnasol i swyddi gwyrdd | Newid o ran argaeledd/presenoldeb mewn dosbarthiadau lleol a digwyddiadau hyfforddi Newid yn y nifer a'r math o restrau swyddi lleol |
| Yr economi leol | Busnesau lleol yn fwy hyfyw, gan arwain at dwf lleol, ffyniant a swyddi | Newid yn nifer/maint busnesau lleol |
| Twristiaeth leol | Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr oherwydd nodweddion amgylcheddol neu ddiwylliannol | Newid yn nifer yr ymwelwyr mewn ardal leol dros gyfnod penodol |
| Diogelwch ynni | Gwell mynediad at gyflenwadau ynni dibynadwy, fforddiadwy a chynaliadwy | Newid yn nifer yr aelwydydd sy'n cael ynni a gynhyrchir yn lleol Newid yn nifer yr aelwydydd sy'n adrodd am dlodi ynni |



COMMUNITY FUND ARUP Innovation Unit UNIVERSITY OF LEEDS CREATURE & CO.

# Mesur buddion

## Manteision Amgylcheddol

| Budd | Am beth rydw i'n chwilio? | Sut gallwn i ei fesur? |
|---|---|---|
| Ansawdd aer | Amodau atmosfferig gwell o ganlyniad i lai o allyriadau a llygredd lleol | Newid yng nghrynodiad llygryddion allweddol (e.e. PM10), gan ddefnyddio synwyryddion mewn lleoliadau allweddol |
| Microhinsawdd | Rheoleiddio hinsawdd lleol, fel oeri o goed | Newid mewn tymheredd lleol, gan ddefnyddio synwyryddion mewn lleoliadau allweddol |
| Lleihau sŵn | Llai o sŵn amgylchynol | Newid mewn lefelau sŵn, gan ddefnyddio mesuryddion desibel mewn lleoliadau allweddol |
| Lleihau gwastraff | Llai o gynhyrchu gwastraff solet | Newid yng nghyfaint gwastraff solet ar lefel y prosiect neu'r gymuned ehangach |
| Arbed dŵr | Defnyddio llai o ddŵr | Newid yn y defnydd o ddŵr ar sail darlleniadau mesuryddion |
| Bywyd gwyllt a chynefin* | Cynnydd mewn bioamrywiaeth neu hyd a lled cynefinoedd o ansawdd da | Newid yn nifer y rhywogaethau (planhigion/anifeiliaid) a welwyd mewn ardal benodol dros amser |
| Lleihau traffig | Llai o gerbydau ar y ffordd, gan arwain at lai o dagfeydd | Newid yn nifer y ceir ar y ffyrdd dros gyfnod sampl Newid yn y niferoedd sy'n cerdded/beicio dros gyfnod penodol |

*Mae Partneriaeth Dysgu a Chymorth CAF yn datblygu rhagor o wybodaeth am fesur buddion natur.



COMMUNITY FUND ARUP Innovation Unit UNIVERSITY OF LEEDS CREATURE & CO.

# Mesur buddion

## Buddion iechyd

| Budd | Am beth rydw i'n chwilio? | Sut gallwn i ei fesur? |
| --- | --- | --- |
| Diogelwch bwyd | Gwell mynediad at fwyd digonol, diogel, maethlon a fforddiadwy | Newid mewn cynnyrch cnydau o erddi cymunedol/rhandiroedd<br>Newid yn nifer y bobl sy'n cael gafael ar fwyd ffres o ffynonellau cymunedol<br>Presenoldeb mewn digwyddiadau sy'n darparu gwybodaeth am faeth, bwyd iach, ac ati |
| Iechyd meddwl | Iechyd meddwl a lles gwell | Y newid a nodwyd mewn pryderon iechyd meddwl gan gyfranogwyr y prosiect/y gymuned gyfagos |
| Iechyd corfforol | Iechyd corfforol gwell | Y newid a nodwyd mewn pryderon iechyd corfforol gan gyfranogwyr y prosiect/y gymuned gyfagos |
| Diogelwch y cyhoedd | Llai o effeithiau o ganlyniad i beryglon | Newid yn nifer y digwyddiadau diogelwch sy'n cael eu cofnodi mewn cymdogaeth yn ôl cymuned leol |
| Hamdden | Mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden | Newid yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol Newid yn nifer y bobl sy'n defnyddio mannau gwyrdd |

# Beth alla i ei wneud nawr?

**Nod y Fframwaith Buddion yw helpu deiliaid grantiau CAF ac eraill sy'n ymwneud â gweithredu ar newid hinsawdd dan arweiniad y gymuned i ystyried yr ystod lawn o fuddion a allai ddeillio o weithgareddau'r prosiect. Gellir cynnwys y buddion hyn yn bwrpasol yn y gwaith o ddylunio, datblygu, monitro, gwerthuso a chyfathrebu prosiectau. Mae'r dull hwn nid yn unig yn cefnogi mesur cliriach ac adrodd straeon cryfach ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, ond mae hefyd yn helpu i sicrhau bod amrywiaeth eang o fuddion yn cael eu cyflawni drwy gydol oes prosiect.**

Gall deiliaid grantiau CAF ac eraill ddefnyddio'r fframwaith i:

- Ddelweddu a chynllunio'r buddion: Ar ddechrau gweithgaredd, neu yn ystod prosiect adolygwch a nodwch yr holl fuddion posibl y gallai eich prosiect eu darparu; nid dim ond y rhai amlwg neu'r rhai arfaethedig. Mae hyn yn helpu i ddylunio ar gyfer effaith ehangach, ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd a chyflwyno'r achos dros gymorth.
- Mireinio eich damcaniaeth newid: Efallai fod gennych ddamcaniaeth newid eisoes, neu efallai eich bod yn ystyried datblygu un. Bydd eich damcaniaeth newid yn nodi'r allbynnau, y canlyniadau a'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â gweithgareddau eich prosiect. Gall trosolwg llawnach o'r ystod o fuddion posibl eich helpu i wirio eich damcaniaeth.
- Mesur beth sy'n bwysig: Dewiswch ddangosyddion mesuradwy sy'n ystyrlon i'ch cymuned a'r rhanddeiliaid rydych chi eisiau dylanwadu arnynt. Gallai hyn gynnwys dangosyddion meintiol ac ansoddol. Gwnewch yn siŵr bod gennych gynllun ar gyfer pryd a sut rydych chi'n mynd i fesur a gwerthuso effaith, a sut bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei fwydo'n ôl i'r prosiect.
- Addasu ar gyfer y cyd-destun lleol: Mae pob cymuned yn wahanol. Defnyddiwch y fframwaith yn hyblyg, gan addasu categorïau, buddion a dangosyddion i gyd-fynd â'ch anghenion a'ch blaenoriaethau lleol.
- Adrodd eich stori: Dydy gweithredu ar newid hinsawdd ddim yn taro tant gyda phawb. Drwy olrhain ystod ehangach o fuddion, gallwch ddangos gwerth llawn eich prosiect i gyllidwyr, partneriaid a'r cyhoedd, a gallwch deilwra eich stori i gyd-fynd â diddordebau pob cynulleidfa. Gall hyn helpu i sicrhau cyllid yn y dyfodol a meithrin cefnogaeth ehangach.
- Cysylltu a rhannu: Cydweithiwch â deiliaid grantiau CAF eraill a grwpiau cymunedol i rannu profiadau, dangosyddion a gwersi a ddysgwyd. Gall y dysgu cyfunol hwn helpu i fireinio'r fframwaith a gwella ymarfer ar draws y sector.
- Anfon eich adborth atom! Byddem wrth ein bodd yn clywed sut rydych chi wedi defnyddio'r fframwaith a beth sy'n taro tant fwyaf ar gyfer eich prosiect.





COMMUNITY FUND ARUP Innovation Unit UNIVERSITY OF LEEDS CREATURE & CO.

## Gwybodaeth am y Gronfa Gweithredu ar Newid Hinsawdd

Mae'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd yn rhaglen gyllido £100 miliwn dros ddeng mlynedd sy'n ysbrydoli ac yn galluogi cymunedau ledled y DU i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Sefydlwyd y rhaglen yn 2019 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cyllidwr mwyaf gweithgarwch cymunedol yn y DU. Mae CAF yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon, gwella'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, a meithrin arferion cynaliadwy ar lefel leol. Mae deiliaid grantiau CAF yn grwpiau cymunedol amrywiol sy'n derbyn cyllid i weithredu prosiectau a arweinir gan y gymuned sydd â'r nod o fynd i'r afael â newid hinsawdd. Maent yn aml yn cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau academaidd a rhanddeiliaid eraill i gyflawni gweithredu effeithiol ar newid hinsawdd dan arweiniad y gymuned.

## Gwybodaeth am Bartneriaeth Dysgu a Chymorth CAF

Yn 2024, comisiynodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Arup i arwain Partneriaeth Dysgu a Chymorth y Gronfa Gweithredu ar Newid Hinsawdd (CAF), gan weithio gydag Innovation Unit, Creature a Co., a Phrifysgol Leeds. Cynhaliwyd yr ymchwil hon gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Leeds, mewn cydweithrediad ag Arup.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gynnwys yr adroddiad hwn, os hoffech chi ddarllen yr adroddiad ymchwil llawn ar fuddion gweithredu ar newid hinsawdd dan arweiniad y gymuned, neu os hoffech chi rannu unrhyw enghreifftiau o sut rydych chi'n defnyddio'r fframwaith buddion, cysylltwch â: CAFSupport@arup.com